Carcharorion - ymweliadau

Os ydych yn y carchar, mae'n bwysig eich bod yn cadw mewn cyswllt â'ch teulu a ffrindiau. Mae'r daflen ffeithiau hon ar gyfer carcharorion a'r bobol sy'n ymweld â nhw. Mae'n esbonio'r rheolau ynglŷn ag ymweliadau.

Pwy sy'n gallu ymweld

Mae hyd at dri oedolyn yn gallu ymweld â rhywun yn y carchar ar yr un pryd. Mae'n syniad da i wirio gyda'r carchar os oes rheolau arbennig ynglŷn ag ymweliadau gan blant.

Os ydych chi'n garcharor, gall eich cynghorydd cyfreithiol ymweld â chi mor aml ag sy'n angenrheidiol ond fel arfer bydd yn rhaid archebu ymweliad. Mae 'cynghorydd cyfreithiol' yn golygu eich cyfreithiwr, bargyfreithiwr neu rywun sy'n cael eu goruchwylio'n uniongyrchol ganddynt. Gall gweithwyr proffesiynol eraill ymweld â chi hefyd, megis gweithiwr cymdeithasol neu swyddog prawf. Nid yw'r ymweliadau proffesiynol hyn yn effeithio ar nifer yr ymweliadau gan ffrindiau neu aelodau o'r teulu.

Mae yna reolau arbennig os ydych am ymweld â rhywun sy'n garcharor Categori A. Bydd yr heddlu yn cysylltu â chi a chaiff eich cofnod troseddol ei wirio. Gall hyn gymryd sawl wythnos a chewch chi ddim ymweld hyd nes bydd y gwirio wedi digwydd. Ond os oes rhesymau arbennig i ymweld wrth aros i'r gwirio ddigwydd, ysgrifennwch at reolwr y carchar yn gofyn iddynt wneud eithriad.

Os yw'r rheolwr yn credu fod ymwelydd yn anaddas, fe allant wrthod yr ymweliad. Os ydych chi'n credu fod ymweliad carchar wedi'i wrthod yn annheg, fe allwch gwyno.

Ymweliadau â charcharorion nad ydynt wedi'u dyfarnu'n euog a charcharorion sifil
Carcharor nad ydyw wedi'i ddyfarnu'n euog yw rhywun sy wedi'i gyhuddo o drosedd ac sy'n aros am brawf neu sydd ynghanol eu prawf. Caiff ei alw yn garcharor ar remand. Nid yw'r term 'carcharor nad ydyw wedi'i ddyfarnu'n euog' yn cynnwys pobol sydd eisoes wedi pledio'n euog neu sydd wedi eu cael yn euog ac sydd ar remand yn aros i gael eu dedfrydu.

Carcharor sifil yw rhywun sydd yn y carchar oherwydd achos di-drosedd, er enghraifft, nid ydynt wedi talu eu treth gyngor.

Fe allwch ymweld â charcharor nad ydyw wedi'i ddyfarnu'n euog neu garcharor sifil heb wneud cais ffurfiol. Cysylltwch â'r carchar i gael gwybod ynglŷn â threfniadau ymweliadau achos fod gan y mwyafrif o garchardai sustem archebu ar gyfer yr ymweliadau hyn.

Mae carchardai yn caniatáu tri ymweliad yr wythnos a gall pob ymweliad barhau am un awr.

Os ydych chi'n perthyn neu'n ffrind agos ac yn methu ymweld yn gyson, gofynnwch a allwch chi gael ymweliad hirach.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Ymweliadau â charcharorion sydd wedi'u dyfarnu'n euog

Os ydych yn y carchar oherwydd eich bod wedi'ch dyfarnu'n euog o drosedd, fe'ch gelwir yn 'garcharor sydd wedi'i ddyfarnu'n euog'. Fe'ch cyfrifir chi hefyd yn garcharor sydd wedi'i ddyfarnu'n euog os pledioch chi'n euog o drosedd neu os ydych chi wedi'ch dyfarnu'n euog hyd yn oed os nad ydych wedi'ch dedfrydu eto.

Os ydych chi'n garcharor sydd wedi'i ddyfarnu'n euog, rhaid i chi lenwi Papur Ymweld (VO) er mwyn cael ymweliad. Rhaid i chi enwi pawb sy'n bwriadu ymweld â chi. Yna anfonwch y VO at un o'r ymwelwyr. Fe gewch chi VO pan ewch chi gyntaf i'r carchar. Ar ôl hynny, fe gewch chi o leiaf un VO bob pythefnos. Fel arfer bydd ymweliadau â charcharorion sydd wedi'u dyfarnu'n euog yn parhau o leiaf un awr. Gall nifer o garchardai ganiatáu ymweliadau hwy neu ymweliadau amlach.

Os ydych chi'n ymwelydd, mae'n bwysig iawn i chi fynd â VO gyda chi i'r carchar fyddwch chi'n ymweld ag ef. Fe fydd angen rhyw fath o ddull adnabod arnoch hefyd. Pan fyddwch chi'n archebu'r ymweliad, gofynnwch i'r carchar pa fath o ddull adnabod y maent yn ei dderbyn. Os nad oes gennych VO nac unrhyw fath o ddull adnabod, efallai na fydd y carchar yn eich gadael i mewn. Os ydych chi wedi derbyn VO ac yn methu ymweld, dychwelwch y VO i'r carcharor er mwyn iddo gael ei ddefnyddio gan rywun arall.

Cymorth ariannol i ymweld â charcharor

Os ydych chi'n bartner neu'n berthynas agos i garcharor, efallai y cewch chi gymorth gyda chostau'r ymweliadau. Mae yna reolau ynglŷn â beth sy'n cyfrif fel perthynas agos. Cyfrifir chi'n berthynas agos os ydych chi wedi byw gyda'r carcharor fel cwpl cyn iddyn nhw gael eu hanfon i garchar.

Os mai chi ydyw unig ymwelydd y carcharor, efallai y cewch chi gymorth gyda chostau'ch ymweliad, beth bynnag ydyw'r berthynas.

Er mwyn cael cymorth ariannol, rhaid i chi gael un o'r canlynol:

- Cymhorthdal Incwm ,
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymhorthdal ar sail Incwm
- Credyd Pensiwn
- Credyd Treth (ond mae hyn yn dibynnu ar eich incwm)
- Cymorth gyda chostau gofal iechyd oherwydd eich bod wedi derbyn tystystgrif HC2 neu HC3.

Er mwyn gwybod mwy am gymorth ariannol ar gyfer ymweliadau, cysylltwch â:

The Assisted Prison Visits Unit (APVU)
PO Box 2152
Birmingham
B15 1SD
Rhif ffôn: 0300 063 2100 (Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.00am a 5.00pm)
Ebost: assisted.prison.visits@noms.gsi.gov.uk

Fe allwch gael mwy o wybodaeth am gymorth ariannol i ymweliadau oddi wrth yr APVU mewn amrywiaeth o ieithoedd, mewn Braille ac ar gaset-clywedol.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Mynd â phethau gyda chi i'r carchar wrth ymweld

Os ydych chi am fynd â phethau gyda chi i'r carchar wrth ymweld, gwiriwch gyda'r carchar beth ganiateir i chi ddod gyda chi. Os ydyw'r carcharor ar remand, fel arfer caniateir i chi fynd â dillad a thaclau ymolch, ond dim bwyd , diod nac arian.

Fel arfer, bydd yn rhaid i chi adael eich eiddo personol mewn loceri cyn mynd i mewn i'r ystafell ymweld. Mae hyn yn cynnwys pethau fel angenrheidiau newid-babi. Rhaid gadael ffonau symudol, ar eich cyfrifoldeb eich hun, wrth brif giât y carchar.

Cyrraedd y carchar

Pan gyrhaeddwch chi'r carchar, bydd angen i chi drosglwyddo unrhyw VO wrth y giât os ydych chi'n ymweld â charcharor sydd wedi'i ddyfarnu'n euog. Gofynnir i chi am ddull adnabod wrth i chi ymweld. Gellir tynnu eich llun a chymryd eich olion bysedd.

Bydd pob ymwelydd, gan gynnwys plant, yn cael eu harchwilio cyn ac ar ôl yr ymweliad. Efallai y gofynnir i chi am agor eich ceg ac i dynnu eitemau o ddillad, er enghraifft, esgidiau, hetiau a gorchuddion pen crefyddol. Beth bynnag fydd lefel yr archwilio, dylai staff y carchar eich trin mewn dull boneddigaidd a pharchus. Os ydych yn anhapus ynglŷn â'r ffordd y cawsoch eich trin, soniwch am eich consyrn wrth uwch swyddog carchar.

Os yw swyddog carchar yn amau eich bod yn cyflawni trosedd, er enghraifft, dod â chyffuriau anghyfreithlon i'r carchar, gall y carchar alw'r heddlu. Gellir eich arestio a'ch cadw hyd nes i'r heddlu gyrraedd.

Yn ystod yr ymweliad

Yn ystod yr ymweliad ei hun, mae'r rheolau hyn yn berthnasol:

- bydd yr ymweliadau yn digwydd yng ngolwg ac yng nghlyw swyddog carchar
- yn arferol bydd yn rhaid i chi eistedd os ydyw'r ymweliad yn digwydd mewn ystafell ymweld
- fel arfer gallwch siarad mewn unrhyw iaith y dewiswch, pa un a yw'r swyddog carchar yn ei deall ai peidio
- caniateir cofleidio a chusanu fel arfer. Os nad ydych yn siŵr faint o gyswllt corfforol a ganiateir, gofynnwch i'r swyddog carchar
- fel arfer ni chaniateir ysmygu yn ystod ymweliadau mewn carchardai a byth mewn sefydliadau troseddau'r ifanc.

Gellir torri'r ymweliad yn fyr os ydyw'r swyddog carchar sy'n gyfrifol yn amau:

- fod unrhyw un o'r rheolau hyn wedi'i thorri
- fod yr ymwelydd yn fygythiad i ddiogelwch y carchar
- fod yr ymweliad yn ypsetio pobol eraill.

Weithiau yn lle torri ymweliad yn fyr gall y rheolwr orchymyn ymweliad caeedig. Dyma lle na chaniateir unrhyw gyswllt uniongyrchol rhwng yr ymwelydd a'r carcharor. Gellir gorchymyn ymweliad caeedig hefyd os ydyw'r carchar yn poeni fod perygl i ddiogelwch y carchar neu os oes posibl i ymddygiad anghyfreithlon neu annerbyniol ddigwydd, megis trosglwyddo cyffuriau.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Cwynion ynglŷn ag ymweliadau

Os yw carcharor am gwyno am ymweliadau, dylent ddefnyddio gweithdrefn gwyno mewnol y carchar. Os nad yw hyn yn llwyddiannus, gallant gwyno i Ombwdsmon y Carchardai a Phrawf.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys unrhyw fath o broblem.Mae rhai Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhedeg sesiynau cynghori yn y carchar. Os nad ydynt yn cynnal y sesiynau hyn, ysgrifennwch at eich CAB lleol ac esboniwch eich problem. Gofynnwch i aelod o staff y carchar am gyfeiriad eich CAB lleol. Os nad ydych yn y carchar a hoffech ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Y Gwasanaeth Cynghori Carcharorion (PAS)
Blwch post 46199
Llundain
EC1M 4XA

Rhif ffôn: 020 7253 3323 / 0845 430 8923 (dydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener 9:30am – 1:00pm a 2:00pm – 5.30pm)
Ffacs: 020 7253 8067
E-bost: advice@prisonersadvice.org.uk
Gwefan: www.prisonersadvice.org.uk

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Carcharorion (PAS) yn darparu cyngor a gwybodaeth i garcharorion ynglŷn â'u hawliau fel carcharorion. Nid yw PAS yn delio â chamwedd neu apeliadau yn derbyn euogfarn neu ddedfryd.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Carcharorion - llythyron
- Carcharorion - cael cymorth ychwanegol
- Carcharorion - cwyno

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 25 Ionawr 2012, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr